

**Tasg 2**

## Pizzas iach ... pizzas gwahanol

Mae rhai pobl yn rhoi pethau rhyfedd ar ben pizzas.

**1**

Dw i'n hoffi cig moch ac wy, sosej, madarch a ffa pob ar ben pizza. Pizza brecwast!

**2**

Dw i'n dod o Awstralia a dw i'n hoffi pizza cangarw a nionod.

**3**

Yn Nenmarc, maen nhw'n rhoi cig ceffyl ar ben pizzas.

**4**

Dw i'n hoffi cyrri poeth ar ben pizza.

**5**

Mae rhai pobl yn Ne America yn rhoi cnau coco ar ben pizzas.

**6**

Mae rhai pobl yn rhoi biffbyrgyr (mewn rôl), sglodion a ffa pob ar ben pizza.

**7**

Yn Sweden, mae rhai pobl yn rhoi cnau mwnci, cyw, pinafal powdr cyrri a bananas ar ben pizza. Diddorol!

**Geirfa**

peth, pethau	thing, things	cnau coco	coconuts
rhyfedd	strange	ffa pob	baked beans
ar ben	on top of	cnau mwnci	peanuts

1. Beth ydych chi'n feddwl o'r pizzas yma? Trafodwch hyn ac ysgrifennwch farn eich partneriaid chi yn y grid yma.

	Partner 1 Enw: .....	Partner 2 Enw: .....	Partner 3 Enw: .....
Pizza 1			
Pizza 2			
Pizza 3			
Pizza 4			
Pizza 5			
Pizza 6			
Pizza 7			

2. Ydy pizzas yn fwyd iach?

- Meddylwch am hyn.
- Beth ydy'ch barn chi? Ysgrifennwch nodiadau – cofiwch roi rhesymau.
- Trafodwch y cwestiwn mewn grŵp. Cofiwch roi rhesymau.
- Cymharwch farn y grŵp â barn y dosbarth.

3. Sut mae gwneud pizzas yn fwy iach?

Trafodwch y cwestiwn yma mewn grŵp ac ysgrifennwch eich syniadau chi ar ddarn o bapur.

Cymharwch eich syniadau chi gyda syniadau grwpiau eraill.

4. Ysgrifennwch rysáit am bizza iach.

Pizza .....	Enw'r pizza
	Y cynhwysion (the ingredients)
Dull 1) ..... 2) ..... 3) ..... 4) ..... 5) .....	Sut mae gwneud y pizza. Cofiwch ddefnyddio gorchmynion <b>-wch</b> , e.e. Golchwch ... Torrwch ... Rhowch ...